



## **Rhaglen fonitro pysgodfeydd blynyddol yn datgelu lleihad digynsail yn niferoedd yr eogiaid mân ar draws Cymru**

### **Cefndir**

Bob blwyddyn mae CNC yn cynnal rhaglen fonitro o bysgodfeydd er mwyn cofnodi dosbarthiad a digonedd pysgod – yn benodol eogiaid a brithyll ifanc – mewn nifer o'n hafonydd. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad a statws stoc, ac ers i'r cyfnod o fonitro ddechrau yn 1986, tueddiadau hirdymor mewn dwyseddau pysgod. Felly, mae gan y gwaith monitro hwn rôl bwysig i'w chwarae wrth reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy gan ei fod yn ein helpu i ddeall, amddiffyn a rheoli ein stoc pysgod.

Mae arolygon poblogaeth pysgod yn defnyddio gweithdrefnau pysgota trydanol yn bennaf lle mae pysgod yn cael eu llonyddu a'u dal dros dro – proses sy'n ddiogel i'r pysgod. Rydym yn cofnodi nifer y pysgod a ddaliwyd, eu rhywogaeth a'u hyd unigol. Mae'r data hwn yn hanfodol wrth ddosbarthu afonydd a chyrrff dŵr o dan Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

### **Canlyniadau eleni**

Eleni, mae ein harolygon cychwynnol o bysgodfeydd ar afonydd Clwyd, Wysg a Thywi wedi dangos gostyngiad digynsail sy'n peri gofid yn niferoedd yr eogiaid mân mewn mannau lle maent wedi bod ar gael bob amser:

Yn nalgylch Tywi, mae ein harolwg wedi dangos bod eogiaid mân yn absennol yn 27 o'r 31 safle a fonitrowyd (roeddent yn bresennol yn 28 o'r safleoedd hyn yn ystod yr arolwg diwethaf).

Ar yr Afon Wysg, roedd ein harolwg yn dangos bod eogiaid mân yn absennol yn 8 allan o'r 12 safle lle maent fel arfer yn bresennol mewn niferoedd da. Nid oedd unrhyw eogiaid mân o gwbl mewn 9 safle arall a arolygwyd am lyswennod.

Ar yr Afon Clwyd, cafodd 5 safle eu pysgota ac er bod y rhain bob amser wedi cynnwys niferoedd da o eogiaid mân, ni chanfuwyd unrhyw rai eleni.

Mae arolygon ar afonydd eraill, gan gynnwys afon Gwy, afon Tawe a afon Glaslyn wedi dod o hyd i niferoedd arferol o eogiaid mân.



Mae ein staff arolygu pysgod profiadol yn adrodd bod y canfyddiadau hyn yn ddigynsail dros y cyfnod o 30 mlynedd ers i'r gwaith o fonitro pysgodfeydd ddechrau.

### **Beth yw'r sefyllfa bresennol?**

Ar hyn o bryd mae'n bwysig ein bod ni'n cwblhau'r rhaglen arolygu i greu llun o statws poblogaethau pysgod ar draws Cymru. Tra bod hyn ar waith rydym yn ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch y sefyllfa yn Lloegr a chyda Llywodraeth Cymru, ac rydym hefyd yn trafod y canlyniadau a'u hachos a'u goblygiadau posibl gyda Cefas (ymgynghorwyr pysgodfeydd i Lywodraeth y DU). Rydym yn archwilio data llif afonydd a data tymheredd ac yn ystyried ffactorau eraill a allai fod yn gysylltiedig.

Rydym hefyd yn asesu stociau eog bob blwyddyn drwy gymharu disgyniad wyau â thargedau dalgylch. Rydym yn nodi, er bod stociau eog sy'n oedolion mewn 21 o'n 23 prif afon yn cael eu hasesu ar hyn o bryd fel 'Mewn Perygl' (gan gynnwys Afon Clwyd ac Afon Tywi) neu 'Yn Debygol o fod Mewn Perygl' (gan gynnwys Afon Wysg) o fethu â bodloni eu targedau silio, roedd y niferoedd gollwng wyau amcangyfrifedig yn 2015 gan amlaf yn aneithriadol.

Hefyd, mae rhywfaint o dystiolaeth, yn arbennig ar gyfer Afon Clwyd, bod poblogaethau brithyllod mân lawer yn is na'r blynyddoedd diweddar.

### **Beth yw'r rhesymau posibl?**

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i fod yn glir ynghylch yr hyn sydd wedi achosi'r diffyg difrifol o silod mân yn y tair afon a drafodwyd yma. Rydym wedi ystyried methiant posibl o bysgod yn gwasgaru i isafonydd, oherwydd llif o bosibl, a'r potensial i glefydau neu lygredd fod yn ffactor achosol, fodd bynnag, mae'n lawer rhy gynnar i fod yn sicr. Fodd bynnag, rydym yn nodi hefyd mai Rhagfyr 2015 oedd y mis Rhagfyr cynhesaf ar gofnod ac o ganlyniad rydym yn asesu cofnodion tymereddau dŵr.

### **Beth all pysgotwyr ei wneud?**

Wrth i ni gwblhau ein rhaglen fonitro ac archwilio'r rhesymau dros y lleihad mewn niferoedd pysgod mân ymhellach, mae'n bwysig bod pawb sy'n rhan o'r pysgodfeydd yn gwneud beth bynnag y gallant i helpu i gynyddu nifer y silod pysgod yr hydref/gaeaf hwn ac yn y dyfodol.

Mae'n bwysicach fyth yn awr bod pysgotwyr yn dychwelyd eu pysgod i gyd er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n gallu silio, a bod y dulliau pysgota a ddefnyddir yn sicrhau bod gan y pysgod a ryddheir y cyfle gorau posibl o oroesi drwy ystyried:

- Di-adfachu'r bachau fel bod pysgod yn gallu cael eu rhyddhau'n haws ac yn gyflym
- Peidio â thynnu'r pysgod o'r dŵr wrth ddadfachu. **Dyma un o'r ffyrdd allweddol o wella'u goroesiad.** Mae cadw pysgodyn yn yr aer am 30-60 eiliad yn llythrennol yn haneru eu siawns o oroesi.
- Peidio â defnyddio bachyn triphlyg - yn enwedig abwyd ehedol math C
- Peidio â defnyddio abwyd.

### **Casgliad**

Mae'r canlyniadau hyn yn ddigynsail ac ymddengys eu bod yn amlwg mewn rhai afonydd ar draws Cymru, ond nid ym mhob un.

Byddwn yn cwblhau ein rhaglen fonitro, wrth barhau i archwilio'r achosion a chanfod datrysiaid.

Yn y cyfamser, mae'n hanfodol bod cymaint o eogiaid â phosibl yn silio eleni. Rydym yn apelio ar bysgotwyr i ryddhau'r eogiaid i gyd y maent yn eu dal, ac i geisio dylanwadu eraill i wneud yr un peth. Yn syml, nid oes digon o bysgod yn silio er mwyn cynnal stociau.

### **troednodyn:**

Gellir dod o hyd i ganllawiau Dal a Rhyddhau ar wefan Sefydliad Gwy ac Wysg.

<http://www.wyeuskfoundation.org/fishing/catchandrelease.php>

[http://www.wyeuskfoundation.org/files/C&R\\_2013.pdf](http://www.wyeuskfoundation.org/files/C&R_2013.pdf)